

FFURFLEN ASESU'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Gorffennaf 2019

DATGANIAD CYDRADDOLDEB Y CYNGOR

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a chyd-barch o fewn ein cymunedau, ein trigolion, ein haelodau etholedig, y rhai sy'n gwneud cais i ni am swyddi a'n gweithlu a rhyngddynt.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at ein gwasanaethau, heb ystyried tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg crefydd, y defnydd o'r Gymraeg, iaith arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion nac unrhyw reswm arall na ellir dangos bod cyfiawnhad drosto.

Mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ofyniad cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2020 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011), lle y mae'r posibilrwydd o effaith negyddol sylweddol wedi'i nodi. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi bod ar waith ers 2000. Mae dyletswydd ddeddfwriaethol arnom hefyd i wneud y canlynol:

- dileu achosion o wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny
- meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

Mae'r Ddeddf yn egluro bod rhoi sylw dyledus i wella cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig neu eu lleihau i'r eithaf
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig, sy'n wahanol i anghenion pobl eraill
- annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:

- | | |
|--------------------|----------------------------------|
| • Oedran | • Hil |
| • Anabledd | • Crefydd, Cred neu Ddiffyg Cred |
| • Ailbennu Rhywedd | • Rhyw |

A greener place
Man gwyrddach



- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Yr Iaith Gymraeg*

* Er nad yw'r Gymraeg wedi'i nodi fel nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n rhaid i ni drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal yng Nghymru yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

ENW'R CYNNIG NEWYDD NEU DDIWYGIEDIG*	Y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif – Band B Cam 1 – Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon
CYFARWYDDIAETH	Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
MAES GWASANAETH	Cynllunio a Strategaeth Addysg
SWYDDOG CYSWLLT	Andrea West
DYDDIAD ADOLYGU NEU DDIWYGIO NESAF	Yn ôl y gofyn



Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



***Drwy Ffurflen Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, defnyddir 'cynnig' i gyfeirio at yr hyn sy'n cael ei asesu ac, felly, mae'n cynnwys polisiau, strategaethau, swyddogaethau, gweithdrefnau, arferion, mentrau, prosiectau a chynigion ar gyfer arbedion.**

Nod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'u hystyried yn rhagweithiol drwy gydol prosesau gwneud penderfyniadau'r gwaith llywodraethu a wneir gan bob maes gwasanaeth yn y Cyngor yn ogystal â'r gwaith a wneir ar lefel gorfforaethol.

Ymdrinnir yn fanylach â gwaith y Cyngor ym meysydd Cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Dynol drwy **Gynllun Gweithredu ac Amcanion Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016-2020.**

Wrth gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb dylech ystyried canlyniadau cadarnhaol a negyddol eich cynigion. Os yw prosiect wedi'i anelu at grŵp penodol e.e. pobl anabl, mae angen i chi hefyd ystyried pa effeithiau y gallai eu cael ar feysydd eraill e.e. pobl ifanc ag

anabledd, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ag anabledd.

Mae nifer o ddogfennau canllaw ategol ar gael ar **Borth yr Uned Polisi Corfforaethol** a gall tîm Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg y Cyngor gynnig cymorth wrth i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei ddatblygu. Noder nad yw'r tîm yn ysgrifennu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ran meysydd gwasanaeth. Caiff y cymorth ei gynnig ar ffurf cyngor, awgrymiadau a thrwy reoli ansawdd i bob pwrpas.

Cysylltwch â cydraddoldeb@caerffili.gov.uk i gael rhagor o gymorth.

DIBEN Y CYNNIG

1	Yr hyn y bwriedir i'r cynnig ei gyflawni <i>(Rhowch ddisgrifiad cryno o'r cynnig newydd neu ddiweddaraf yn ogystal â nodi ei ddiben fel cyflwyniad.)</i> • Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i ysgol Gymraeg bwrpasol newydd ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn (<i>Cwmcarn, NP11 7NG</i>) gyda dyddiad meddiannu a ragwelir ym mis Medi 2022. ➤ Bwriedir i'r adeilad newydd ymgorffori cyfleuster cynradd yn cynnwys Gofal Plant, Canolfan Adnoddau Arbennig, Meithrinfa, ardal i blant sy'n codi'n dair oed, ystafelloedd dosbarth ar gyfer y brif ysgol, prif neuadd, ardal technoleg bwyd, llyfrgell ac ardal ar gyfer Technoleg Gwybodaeth. ➤ Bydd yr adeilad newydd yn gwella'r ardal ddysgu yn yr awyr agored drwy gynnal ardaloedd chwarae allanol, ardal Gemau Amlbwrpas tarmacadam a mynediad at gae chwarae glaswellt. Caiff y posibilrwydd o alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau chwaraeon ar adegau addas hefyd ei ystyried yn unol ag amserlen y cwricwlwm. • Ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, fel y gwyddom sy'n fwy cynaliadwy i deuluoedd os yw'r ddarpariaeth addysg yn cael ei hehangu yn unol ag argaeledd gofal plant yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. • Darparu cyfleoedd ychwanegol i drochi yn y Gymraeg, hwyluso'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r iaith Gymraeg er mwyn cyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. • Cytuno y gall swyddogion fynd yn eu blaen i gaffael ac adeiladu ac i gytuno i greu cyfleuster wrth gefn a glustnodwyd yn adran Addysg cyfrifon y Cyngor.
2	Pwy yw'r defnyddwyr gwasanaeth y mae'r cynnig yn effeithio arnynt? <i>(Ar bwy y bydd y cynnig hwn yn effeithio? e.e. aelodau o staff, y cyhoedd yn gyffredinol, neu grwpiau penodol o'r cyhoedd h.y. grwpiau ieuenctid, gofawyr, defnyddwyr ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau a ati. A oes unrhyw fylchau yn y data?)</i> Mae'r defnyddwyr gwasanaethau canlynol wedi cael eu nodi: • Disgyblion • Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofawyr holl ddisgyblion yr ysgol y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol • Staff sy'n gysylltiedig â'r ysgol y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, gan gynnwys: Athrawon/Tîm Gweinyddol/Arlwyo/Glanhau/Trafnidiaeth/Hamdden/Gwasanaethau Cynhwysiant/Tîm y Blynnyddoedd Cynnar • Y Gymuned Leol

Yn ogystal â hyn, dilyn y canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 (dogfen statudol 011/2018)/ Byddwn yn ymgynghori â'r partïon canlynol â diddordeb:

- Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofawyr holl ddisgyblion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol
- Penaethiaid, staff a llywodraethwyr yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol
- Cyfarwyddwyr Addysg pob Awdurdod Lleol cyfagos – Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Casnewydd, Powys, Torfaen, Caerdydd
- Merthyr Tudful, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Torfaen
- Bwrdd Addysg yr Esgobaeth Gatholig
- Bwrdd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru
- Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Lleol ar Addysg Grefyddol (SACRE)
- Cyrff llywodraethu eraill y mae'r cynigydd yn ystyried bod y cynnig yn debygol o effeithio arnynt
- Aelodau lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Pob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol
- Gweinidogion Cymru
- ESTYN
- Cymdeithasau Addysgu
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- Consortiwm De Ddwyrain Cymru (EAS)
- Cynghair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru
- Cynghorau Cymuned a Thref lleol
- Mudiad Meithrin a darparwyr meithrinfeydd gwirfoddol
- Menter Iaith
- Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Rhwydwaith Rhieni
- Fforwm Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Comisiynydd y Gymraeg

Nid oes unrhyw fylchau wedi'u nodi yn y data

YR EFFAITH AR Y CYHOEDD A STAFF

3	A yw'r cynnig yn sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at yr holl wasanaethau sydd ar gael neu a gynigir, neu eu bod yn cael yr un budd o'r newidiadau arfaethedig, neu na fyddant ar eu colled mewn ffyrdd mwy sylweddol neu ddifrifol oherwydd y cynigion? <i>(Beth a wnaed i archwilio i weld a oes gan y grwpiau hyn fynediad cyfartal at y gwasanaeth neu a oes angen iddynt dderbyn y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill?)</i>
---	--

Defnydd Cymunedol:

Bydd y sawl fydd yn mynychu, yn defnyddio ac yn gweithio yn yr adeilad yn cael budd o gyfleuster arloesol yr 21ain Ganrif, sy'n addas at y diben. Yn ogystal â hyn, mae'r cynnig yn bwriadu ehangu mynediad i'r safle newydd er mwyn galluogi'r gymuned i'w ddefnyddio a chynnig darpariaeth gofal plant.

Fel rhan o gylch gwaith Ysgolion yr 21ain Ganrif, rhaid ystyried y posibilrwydd o rannu cyfleusterau'r ysgol â'r gymuned ehangach. Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i allu 'rhannu' ardaloedd yn ddiogel yn adeilad yr ysgol newydd, gan gynnwys y neuadd ac ardal ystafell ddosbarth amlbwrpas y gellir addasu eu defnydd. Caiff y seilwaith ar gyfer y Wi-Fi a Thechnoleg Gwybodaeth ei sefydlu i gefnogi mynediad cyhoeddus a defnydd gan y gymuned. Caiff y posibilrwydd o alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau chwaraeon ar adegau addas hefyd ei ystyried yn unol ag amserlen y cwricwlwm.

Teithio Egnïol:

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol o dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Mae Caerffili yn bodloni gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 drwy ddarparu trafndiaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion oedran ysgol statudol yn unol â'n polisi trafndiaeth unigol. Mae polisi trafndiaeth Caerffili yn fwy hael na'r gofyniad deddfwriaethol, gan ei fod yn darparu trafndiaeth i'r ysgol 'berthnasol' (h.y. yn y dalgylch neu'r ysgol agosaf) ar gyfer pellter dros 1.5 milltir i ysgolion cynradd a dwy filltir i ysgolion uwchradd.

Nod yr Awdurdod yw darparu system drafndiaeth a fydd yn ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg yn ddiogel ac yn gyfforddus. Y lleoliad arfaethedig newydd oedd hen safle ysgol ac felly mae nifer o lwybrau 'Teithio Diogel' eisoes wedi'u creu, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, gan gynnwys mannau bysus dynodedig, mannau tanffordd/trosffordd, goleuadau a llwybrau cerdded dynodedig. Mae'r llwybr cerdded o'r safle presennol yn llai na 0.9 milltir ac felly ni fyddai'n cael ei ystyried fel llwybr a fyddai'n achosi lefelau afresymol o straen nac yn cymryd cyfnod afresymol o amser yn unol â'r mesur.

Er na fydd dalgylch yr ysgol yn newid, mae'n anochel y bydd rhai plant bellach yn gymwys ac na fydd eraill yn gymwys, yn dibynnu ble maent yn byw. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod yn rhagweld cynnydd mewn capasiti, ond caiff hyn ei reoli drwy nifer y plant a dderbynnir, ond mae'n anodd dehongli pwy fydd yn gymwys ar hyn o bryd. Er bod y goblygiadau cost parhaus wedi'u hystyried a bod arian wrth gefn wedi'i ystyried yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod, ni ellir pennu'r union ffigur ar hyn o bryd gan mai anghenion disgyblion unigol fydd yn pennu'r dull o drafndiaeth fydd ei angen.

Y Gymraeg yn y Gymuned:

'Mae gan y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a chaiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n effeithiol iawn. Mae'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol

allweddol yn dda.' – Estyn 2013

Gwnaeth Estyn y sylwadau uchod mewn perthynas â'r ysgol bresennol a bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso datblygiadau pellach i gryfhau a diogelu'r iaith Gymraeg yn ogystal â Diwylliant a Threftadaeth Cymru yn y Gymuned. Mae hyn hefyd yn cydweddu ag un o brif amcanion Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy hyrwyddo Cymru fel gwlad sydd â diwylliant bywiog a'r Gymraeg fel iaith sy'n ffynnu.

Er mwyn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n hollbwysig gwella ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â grwpiau neu sefydliadau yn y gymuned er mwyn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar yn gymdeithasol neu yn y gweithle ar ôl i addysg ffurfiol ddod i ben. Heb y defnydd parhaus o'r Gymraeg, mae perygl y gallai pobl ifanc o gartrefi Saesneg eu hiaith golli hyder yn eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gofal plant cyfrwng Cymraeg i blant o ddwy oed i fyny er mwyn gallu datblygu'r Gymraeg yn gynnar gan ddefnyddio methodoleg trochi. Drwy ddarparu gofal cofleidiol, ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau drwy gyfrwng y Gymraeg, gall y plant barhau i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol yn y Gymraeg, ac mae'n hollbwysig i rieni sy'n gweithio dderbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg llawn yn yr un modd â'r sawl sydd mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg.

Mae asesiad addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â Rheoliadau (Cymru) 2013 wedi cael ei gynnal yn unol â'r gofyniad bob tair blynedd. Cafodd arolwg ar y galw ymhlith rhieni hefyd ei gynnal yn 2018. Y rhain yw'r sail ar gyfer yr holl amcanestyniadau o dueddiadau'r galw yn y dyfodol ac maent yn darparu tystiolaeth o'r angen am leoedd ychwanegol a'u lleoliad yn y fwrdeistref. Yn y gorffennol, mae'r arolygon rhieni wedi dylanwadu ar ddarpariaeth iaith mewn ysgolion newydd, er enghraifft, cafodd Ysgol Penalltau ei hagor fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ateb y galw cynyddol a'r galw yn yr ardal leol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae llai o lawer o lefydd gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn hyn yn ogystal â galw cynyddol gan rieni sy'n defnyddio Cylchoedd Meithrin. Bydd y lleoliad yn gwasanaethu'r sawl sy'n byw ymhellach i lawr y cwm yn well a bydd y ddarpariaeth ehangach yn ateb y galw cynyddol drwy'r Cynnig Gofal Plant i blant rhwng tair a phedair oed.

Gofynion penodol ar gyfer Defnyddwyr y Ganolfan Adnoddau Arbennig:

Mae'r Awdurdod yn cydnabod effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018) yn ogystal â'r angen i sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynnig hwn wedi ystyried y mathau, y swm a'r ansawdd cywir o ddarpariaeth er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol a bydd y prosiect hwn yn cefnogi adnodd y Gymraeg ymhellach i'r plant hynny sydd angen darpariaeth arbenigol y tu allan i ysgol brif ffrwd. Mae'r cynnig yn diwallu'r anghenion a nodir yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET), Deddf Safonau'r Gymraeg yn ogystal â rheoliadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

	Effaith ar ysgolion eraill: Drwy gynyddu nifer y disgyblion a dderbynnir i nifer y gellir ei reoli, gellir ysgogi'r gofynion ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg heb ei gorddatblygu i ansefydlogi darpariaethau addysg sydd eisoes wedi'u sefydlu yn yr ardal. Rhagwelir y caiff 45 o ddisgyblion eu derbyn i'r ysgol newydd pan fydd yn agor, ac y bydd y nifer hwn yn cynyddu'n raddol i bum disgybl ychwanegol y flwyddyn nes iddi gyrraedd ei capasiti llawn o 60 o ddisgyblion. Mae'n amlwg bod y Gymraeg yn bwysig iawn i fywyd yng Nghymru. Mae cynnal a chynyddu'r dewis o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn her fawr i'r Cyngor. Mae'n anochel y bydd newidiadau i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Po fwyaf o ddisgyblion sy'n mwynhau addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, y mwyaf tebygol ydynt i fynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg a derbyn y cyfleoedd gorau i fyw eu bywydau yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. O fewn y fwrdeistref, fel y nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac mae'r cyfraddau dilyniant yn parhau i fod yn uchel. Wrth ystyried yr effaith y gallai'r cynnig hwn ei chael, caiff y safle ei gynllunio a'i strwythuro'n strategol er mwyn gwneud y defnydd gorau o le a rhoi'r posibilrwydd o allu hwyluso darpariaeth Uwchradd yn y dyfodol os bydd angen cynyddu'r capasiti yn yr ardal honno.	
4	A fydd eich cynnig yn effeithio ar bobl neu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig? <i>(A archwiliwyd y ddarpariaeth gwasanaethau i asesu a oes unrhyw effaith anuniongyrchol ar unrhyw grwpiau? A allai goblygiadau'r polisi neu'r cynnig ar arbedion amrywio yn dibynnu ar nodweddion gwarchodedig pobl?)</i>	
Nodwedd Warchodedig	Cadarnhaol, Negyddol, Niwtral	Beth fydd yr effaith? Os yw'r effaith yn negyddol, sut y gellir ei lleihau?
Oedran	Cadarnhaol	Cynnal ac ehangu'r ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i gynnwys gofal plant a Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Hefyd, ar gyfer defnydd y gymuned ehangach.
Anabledd	Cadarnhaol	Mae'r mynediad i safle'r ysgol bresennol yn gyfyngedig i ddisgyblion a'r gymuned ehangach. Bydd yr adeilad newydd yn gyfleuster hygyrch a fydd yn addas i unrhyw un ag anghenion ychwanegol.
Ailbennu Rhywedd	Niwtral	Dim newid wedi'i ragweld
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Niwtral	Dim effaith
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Niwtral	Dim effaith
Hil	Niwtral	Dim newid wedi'i ragweld
Crefydd a Chred	Niwtral	Dim newid wedi'i ragweld
Rhyw	Niwtral	Dim newid wedi'i ragweld

Cyfeiriadedd Rhywiol	Niwtral	Dim newid wedi'i ragweld
----------------------	---------	--------------------------

5	Yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif .1) 2015 , nodwch isod yr effeithiau, os o gwbl (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol), y byddai'r cynnig yn ei gael isod ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. <i>(Gofynion penodol y Safonau Lluo Polisi yw rhifau Safonau 88, 89, 90, 91, 92 a 93. Mae manylion llawn pob Safon ar gael ar Borth yr Uned Polisi Corfforaethol. Er ei fod yn bwysig sicrhau bod yr hyn a amlinellir yn y cynnig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, dylid ystyried yr effeithiau ehangach ar siaradwyr Cymraeg.)</i> Mae Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cefnogi darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, sy'n hollbwysig i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chynllun Safonau'r Gymraeg. Bydd pob rhiant yn cael gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg o lyfryn Dechrau Ysgol Caerffili sy'n cael ei ddosbarthu gyda ffurflenni cais am le mewn ysgol yn ogystal â bod ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall rhieni gael gwybodaeth am ofal plant ac Addysg y Blynnyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ogystal ag yn y llyfrynau hyrwyddo Bod yn Ddwyieithog ar-lein ac mewn taflenni gwybodaeth mewn manau cyhoeddus. Fel y nodir yn ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg , mae ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfleusterau addysgol deniadol o ansawdd, yn amlwg. Bydd y cynnig hwn yn ceisio ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cyfleuster addysgol cyfrwng Cymraeg newydd sy'n addas at y diben ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn. Mae'r Awdurdod wedi cydnabod y berthynas rhwng yr ysgol sydd eisoes yn bodoli a chynnal y Gymraeg yn y pentref yn ogystal â chyfraniad yr ysgol at gyflawni'r nod hwn. Mae safle presennol yr ysgol yn cynnig nifer cyfyngedig o weithgareddau i'r gymuned gymryd rhan ynddynt drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yr Awdurdod yn ystyried lleihau unrhyw effaith andwyol y gallai'r broses o adleoli'r ysgol ei chael ar drigolion lleol pentref Cwmcarn ac ar allu'r gymuned i barhau i gynnal gweithgareddau o'r fath, er enghraifft helpu'r gymuned i ddefnyddio'r llyfrgell leol fel man cyfarfod (mae llyfrgell gyhoeddus Abercarn o fewn dwy funud ar droed o'r ysgol bresennol). Drwy ddatblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar y safle ger meithrinfa cyfrwng Cymraeg y Cyfnod Sylfaen, bydd hyn yn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth i rieni ac yn parhau i gryfhau gafael y plant lleiaf ar y Gymraeg. Drwy ddarparu gofal cofleidiol, ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, bydd hyn yn galluogi teuluoedd sy'n gweithio i gael yr un mynediad at ddarpariaeth â'u cymheiriaid cyfrwng Saesneg yn ogystal â galluogi plant i gael profiadau chwarae cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy ddarparu pob gwasanaeth ar yr un safle mewn datblygiad cydlynol, caiff hyn effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan sicrhau ei bod yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hwy. Fel rhan o'r broses o lunio polisi, caiff copi caled ei greu ar gyfer pob dogfen ymgynghori a bydd hefyd ar gael ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i
---	---

	ddechrau, a bydd ieithoedd a fformatau eraill hefyd ar gael ar gais. Mae'r Awdurdod eisoes wedi sefydlu protocol clir mewn perthynas ag ymateb i unrhyw achos o ryngweithio â chwsmeriaid. Gall yr ohebiaeth fod mewn unrhyw iaith neu fformat ac ni fydd ymateb yn Gymraeg yn arwain at oedi. Yn ogystal â hyn, caiff unrhyw un sy'n mynychu'r cyfarfodydd ymgynghori gyfle i gynnal y sesiwn yn ei ddewis iaith – boed hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys adrannau penodol a fydd yn annog pob parti â diddordeb i ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg ac yn rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau ar unrhyw gamau gweithredu rhesymol a fydd yn galluogi'r cynnig i gael effaith fwy cadarnhaol/llai andwyol ar y Gymraeg, yn ogystal â'r effaith y bydd adleoli'r ysgol yn ei chael ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.
--	--

CASGLU GWYBODAETH

6	Nodwch unrhyw dystiolaeth a / neu waith ymchwil a gasglwyd gennych sy'n ategu'r cynnig? Gall hyn gynnwys gwerthuso defnyddwyr gwasanaethau. <i>(A yw'r gwasanaeth hwn yn ymgysylltu â'i holl ddefnyddwyr posibl yn effeithiol neu a oes un grŵp â nodweddion gwarchodedig neu fwy yn defnyddio'r gwasanaethau yn fwy neu'n llai aml na'r lleill? Os felly, beth a wnaed i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaeth o ran y grwpiau sy'n defnyddio'r gwasanaeth? A fydd unrhyw gynigion o ran arbedion yn cynnwys dadansoddiad o'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt?)</i> Mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda chapasiti o bron i 3,000 gyda'i gilydd. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-2020 yn nodi'n glir y bydd yr Awdurdod yn Cydweithio â Thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru i ganfod cyllid i ddatblygu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle maent yn dod o dan bwysau, yn enwedig ardal Bedwas Tretomos Machen, ac ardal Dwyrain Islwyn. Mae'r cynnig hwn yn gysylltiedig ag ardal dwyrain Islwyn. Fel rhan o'r gwaith ymchwil ar gyfer y cynnig hwn, cyfeiriwyd at ganfyddiadau'r asesiad addysg cyfrwng Cymraeg 2018 a'r arolwg o'r galw gan rieni 2018, a gwblhawyd fel rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod. Y rhain yw'r sail ar gyfer yr holl amcanestyniadau o dueddiadau'r galw yn y dyfodol ac maent yn darparu tystiolaeth o'r angen am leoedd ychwanegol a'u lleoliad yn y fwrdeistref sirol. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Gwyddon wedi bod ar y safle presennol ers 19 o flynyddoedd. Wedi'i lleoli yng nghanol pentref bach Abercarn, yr ysgol yw trydydd deiliad y safle, sydd wedi newid sawl gwaith dros y blynyddoedd i wneud y defnydd gorau posibl o'r ased. Mae tua 260 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 180 ychwanegol i'r cysyniad gwreiddiol i letya ar gyfer 80 o ddisgyblion pan drosglwyddwyd y safle i'r ysgol yn wreiddiol. Dangosodd y wybodaeth o'r arolwg cyflwr diweddaraf a gwblhawyd ar y safle gan ddefnyddio methodoleg arolygu adeiladau cydnabyddedig yn y diwydiant, 'Faithful and Gould', fod cyflwr yr ysgol yn cael ei ystyried yng Nghategori C. Mae hyn yn golygu bod cyflwr cyffredinol yr ysgol yn wael, ac yn dangos problemau mawr neu ddim yn gweithredu'n ddigonol.
---	--

YMGYNGHORI

7	Nodwch y broses ymgynghori / ymgysylltu ac unrhyw ganfyddiadau allweddol. <i>(Dylech gynnwys y dull o ymgynghori, amcanion a'r gynulleidfa darged. Pa gamau a gymerwyd i sicrhau yr ymgynghorwyd â phobl o amrywiol grwpiau wrth ddatblygu'r cynnig hwn? Ydych chi wedi cyfeirio at y Canllawiau Ymgynghori a Monitro Cydraddoldeb?)</i> Bydd y broses ymgynghori yn parhau yn unol â gofynion Cod Statudol Llywodraeth Cymru rhif dogfen 011/2018 – Cod Trefniadaeth Ysgolion Ail Fersiwn 2018. Byddwn yn ysgrifennu at restr ragnodedig o dderbynwyr (fel yr amlinellir yn Adran 2) a fydd yn derbyn digon o wybodaeth mewn dogfen ymgynghori a gaiff ei chyhoeddi i'w hystyried yn ddeallus. Bydd y ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy gydol y broses a gellir gofyn am fformatau eraill hefyd. Caiff egwyddorion y broses ymgysylltu a nodwyd yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020 yr Awdurdod Lleol hefyd eu cydnabod a bydd tîm y prosiect yn ymgysylltu ag unrhyw 'bartïon eraill â diddordeb' yn ôl y gofyn. Caiff dogfen ymgynghori ei chyhoeddi ar ffurf copi caled ac ar-lein yn Gymraeg a Saesneg a fydd yn cynnwys ffurflen ymateb i gasglu barn gwahanol bobl. Gellir defnyddio'r ddogfen hon yn ystod cyfnod ymgynghori, fydd yn para tua chwe wythnos. Rhoddir digon o amser i ystyried y cynnig ac ymateb iddo a chaiff pob ymateb a dderbynnir ei ystyried yn ofalus. Rhagwelir hefyd y caiff cyfres o sesiynau wedi'u targedu eu cynnal ar ddiwrnod penodol rhwng 10am a 8pm i rannu gwybodaeth a rhoi'r cyfle i bobl ofyn cwestiynau i'r swyddogion dynodedig am y cynnig. Bydd gofyn i unigolion drefnu apwyntiadau 10 munud a bydd cyfieithydd ar gael os bydd angen. Fel rhan o'r broses hon, bydd y cynulleidfaoedd targed y byddwn yn ymgysylltu â nhw yn cynnwys Disgyblion (y Cyngor Ysgol), Staff yr Ysgol, Llywodraethwyr yr Ysgol, Rhieni/Gwarcheidwaid a'r Gymuned ehangach. Mae Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif hefyd wedi cydnabod bod llais y disgybl yn hanfodol yn ogystal â chynnwys plant a disgyblion yn y broses o ddatblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu hanghenion addysgol a'u profiad fel myfyrwyr. Dylai'r wybodaeth hon fod wrth wraidd y broses o gynllunio, darparu a gwerthuso.
---	--

MONITRO AC ADOLYGU

8	Sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro? <i>(Pa broses fonitro a roddwyd ar waith i asesu'r graddau y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan bob rhan o'r gymuned, neu fod y cynigion o ran arbedion yn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig heb effaith andwyol? A oes systemau ar gyfer rhoi sylwadau neu gyflwyno cwynion wedi'u creu i gofnodi'r materion yn ôl categorïau Cydraddoldeb er mwyn dadansoddi'r ymatebion gan grwpiau penodol?)</i> Caiff y rhaglen ei rheoli gan Fwrdd Prosiect fydd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth, y Prif Swyddog Addysg, yr Aelod Cabinet ar gyfer Addysg a Chyflawni, y Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro a'r Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif. Y Bwrdd Prosiect fydd yn gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r Rhaglen yn gyffredinol, gan fod yn gyfrifol am lwyddiant y Rhaglen a gweithredu fel y corff penderfynu ar gyfer y Rhaglen. Tîm Rheoli'r Prosiect, a fydd yn cynnwys y Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth yn ogystal ag adnoddau a staff o'r Gwasanaethau Eiddo, fydd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu a rhoi pob prosiect cysylltiedig ar waith o ddydd i ddydd, a bydd yn atebol i'r Bwrdd ac uwch swyddogion perthnasol eraill, fel y bo'n briodol. Caiff egwyddorion rheoli prosiectau eu dilyn (Prince2 ac MS Project) drwy'r rhaglen. Caiff egwyddorion rheoli prosiectau eu rhoi ar waith ar gyfer y rhaglen Band B gyffredinol a bydd y prosiect yn defnyddio profiad tîm y prosiect fydd yn gweithio ar brosiect Band A. Bydd hyn yn dechrau gyda chynllun gweithredu ar gyfer y Rhaglen a fydd yn diffinio amcanion, cyfrifoldebau, camau gweithredu dibynnol a risgiau'r rhaglen. Bydd yr olaf yn cynnwys dileu risgiau neu gamau lliniaru yn ogystal â'r unigolyn sy'n gyfrifol am y risg. Bydd adnodd monitro rhaglen gyffredinol yn cyfuno ac yn cydlynu rhaglenni caffael, dylunio ac adeiladu ac yn nodi'r prif ddibyniaethau a'r llwybr critigol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid i bob aelod o'r sefydliad feddu ar y sgiliau i gwneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau fydd ar gael. Cydnabyddir bod dulliau rheoli prosiectau da yn elfen hollbwysig er mwyn llwyddo i fynd i'r afael â'n rhaglen waith strategol.
9	Sut y caiff y dull o fonitro ei werthuso? <i>(Pa ddulliau a ddefnyddir i sicrhau bod anghenion pob rhan o'r gymuned yn cael eu diwallu?)</i> Mae'r Cyngor yn creu dogfen brotocol ar gyfer pob prosiect agor/cau/cyfuno ysgolion. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfrifoldebau unigolion a chyfrifoldebau tîm ar gyfer y rhestr lawn o'r camau gweithredu gofynnol yn y tri cam o ddylunio a pharatoi ar gyfer adeiladu, adeiladu a meddiannu'r ysgol a datgomisiynu. Caiff cyfarfodydd monitro rheolaidd eu cynnal ac fel arfer maent yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif, Pennaethiaid, Cynghorwyr Addysg, Gwasanaethau Eiddo, Gwasanaethau Arlwygo a'r adrannau TGCh, Rheoli Traffig, Caffael ac Archwilio. Bydd rhanddeiliaid perthnasol hefyd yn rhan o'r broses o werthuso'r prosiect wedi iddo ddod i ben er mwyn adolygu'r canlyniadau a sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud i brosiectau yn y dyfodol.

Caiff y Buddiannau a Wireddwyd eu monitro gan Dîm Rheoli'r Prosiect a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chânt eu hadrodd i Lywodraeth Cymru yn adroddiad cau'r prosiect a dogfennau perthnasol eraill. Adroddir ar y buddiannau i'r gymuned bob chwarter, yn flynyddol ac ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Caiff adolygiad porth hefyd ei gynnal yn ôl gofynion y cytundeb cyllido. Fel rhan o'r adolygiad, bydd ymarferwyr annibynnol nad ydynt yn rhan o'r rhaglen/prosiect yn defnyddio eu profiadau a'u harbenigedd i fwrw golwg ar gynnydd y rhaglen neu'r prosiect yn ogystal â'r tebygolrwydd o lwyddo. Bydd pob argymhelliad gan y tîm adolygu yn cael ei ystyried a'i roi ar waith yn ôl y gofyn.

Caiff adolygiad yn dilyn y contract ei gynnal hefyd.

10	A nodwyd unrhyw ofynion o ran cymorth / arweiniad / hyfforddiant? <i>(A yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu'r broses ymgynghori wedi dangos bod angen codi ymwybyddiaeth ymhlith y staff, neu fod angen rhoi hyfforddiant o ryw fath ar Gydraddoldeb neu'r Gymraeg?)</i> Mae'r personél allweddol wedi derbyn Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o'r Effaith ar Gydraddoldebau ac Ymwybyddiaeth o Gydraddoldebau ac wedi mynychu hyfforddiant a sesiynau gwybodaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff anghenion hyfforddiant eu hadolygu drwy gydol y broses ac eir i'r afael â nhw yn ôl yr angen. Yn ogystal â hyn, mae Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Prif Swyddog wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Tîm Cydraddoldebau, y Gymraeg ac Ymgynghori i ddilyn canllawiau yn ôl y gofyn.
----	---

11	Os oes unrhyw effaith andwyol wedi cael ei nodi, nodwch unrhyw gamau lliniaru. Bydd yr effaith a nodwyd yn gadarnhaol gan mai'r nod yw darparu cyfleusterau ysbrydoledig ar gyfer yr 21ain Ganrif. Fel y nodwyd yn fanylach yn Adran 3 a 5 uchod, maent yn cynnwys: • Y Gymraeg yn y Gymuned • Defnydd Cymunedol • Canolfan Adnoddau Arbennig • Teithio Egniïol Os bydd unrhyw effaith negyddol yn cael ei nodi yn nes ymlaen, rhoddir ystyriaeth briodol iddi a chaiff unrhyw gamau lliniaru rhesymol ymarferol eu rhoi ar waith. Bydd pob cam gweithredu yn cael ei nodi'n llawn yn y dogfennau perthnasol.
12	Pa ddefnydd ehangach y byddwch yn ei wneud o'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb? <i>(Pa ddefnydd y byddwch yn ei wneud o'r ddogfen hon h.y. fel ymateb i ymgynghoriad, atodiad i adroddiadau cymeradwyo, cyhoeddusrwydd ac ati, yn ogystal â'r camau gweithredu gorfodol a ddangosir isod?)</i> Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn atodiad i'r adroddiad. Mae'r ddogfen hon yn ddogfen weithio a chaiff ei diweddarau drwy gydol y broses.

13	Gall asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb arwain at bedwar canlyniad posibl, ond gall mwy nag un ohonynt fod yn berthnasol i gynnig unigol. Nodwch ganlyniad(au) perthnasol o'r asesiad effaith isod. Ticiwch fel sy'n briodol: Dim newid mawr – dangosodd yr asesiad effaith fod y cynnig yn gadarn; nid oedd posibilrwydd o wahaniaethu nac effaith andwyol. Achubwyd ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb. Addasu'r cynnig – gwnaeth yr asesiad effaith nodi problemau posibl neu gyfleoedd a gollwyd. Addaswyd y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well. Parhau â'r cynnig – gwnaeth yr asesiad effaith nodi problemau posibl neu gyfleoedd a gollwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r rheswm/rhesymau i gyfiawnhau parhau â'r cynnig wedi'u nodi'n glir. (Rhaid cynnwys y cyfiawnhad yn yr asesiad effaith a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r ddyletswydd i'w hystyried. Bydd angen rhoi rhesymau darbwyllog ar gyfer y cynigion mwyaf perthnasol.) Rhoi terfyn ar y cynnig a'i ddileu – nododd yr asesiad effaith achosion gwirioneddol o wahaniaethu neu achosion anghyfreithlon posibl. Daethpwyd â'r cynnig i ben a chafodd ei ddileu neu ei newid. X
----	--

Cwblhawyd y ffurflen gan:	
Enw:	Andrea West
Teitl Swydd:	21 st Century Schools Manager
Dyddiad:	01/09/2020

Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth	
Enw:	Sue Richards
Teitl Swydd:	Head of Education Planning and Strategy
Llofnod:	S. Richards
Dyddiad:	01/09/2020